Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

21 Chwefror 2020

Annwyl Lywydd

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham**

Trafodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham yn ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2020. Wrth wneud hynny, ystyriwyd yr adroddiad a gynhyrchodd ein Pwyllgor fis Hydref 2019 ar gyfer y fersiwn flaenorol o'r Bil hwn gan Lywodraeth y DU. Nid oedd modd bwrw ymlaen â'r Bil oherwydd y penderfyniad i gynnal etholiad cyffredinol y DU yn yr hydref.

O ran y darpariaethau yn y Bil y mae gofyn i ni roi cydsyniad iddynt, deallwn nad oes unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r darpariaethau perthnasol hynny wrth gymharu'r fersiwn hon o'r Bil â'r fersiwn y gwnaethom gyflwyno adroddiad arni fis Hydref diwethaf. Rydym yn cydnabod bod rhifau'r cymalau sy'n cynnwys y darpariaethau perthnasol (at ddibenion yr LCM) yn wahanol oherwydd bod y rhifau yn y Bil yn ei gyfanrwydd wedi newid.

Sylwn fod y Pwyllgor Busnes wedi gofyn inni graffu ar yr LCM hwn a chyflwyno adroddiad arno erbyn 12 Mawrth 2020. Oherwydd y rhesymau uchod, rydym wedi cytuno na fyddwn yn cynhyrchu adroddiad arall ar yr LCM.

Gallai'r adroddiad a gynhyrchodd y Pwyllgor ym mis Hydref 2019 fod yn ddefnyddiol i Aelodau'r Cynulliad pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, felly bydd clercod y Pwyllgor yn cydweithio â chlercod y

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Cyfarfod Llawn i sicrhau y bydd ein hadroddiad ar gael yn ystod unrhyw ddadl gysylltiedig.

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.